# Polisi Cyffredinol Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat

Fersiwn 1.2

**1 Cyflwyniad**
1.1 Nodau ac amcanion yr Awdurdod Trwyddedu
1.2 Ynghylch y polisi hwn
1.3 Pwerau dirprwyedig
**2 Gyrwyr**
2.1 Trwyddedau gyrru deuol
2.2 Amodau
2.3 Rhoi ac adnewyddu trwyddedau
2.4 Bathodyn gyrrwr
2.5 Rhybuddiadau, rhybuddion, collfarnau ac ardystiadau
2.6 Ffioedd trwyddedu
**3 Cerbydau**
3.1 Trwyddedau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat
3.2 Cyfyngu ar niferoedd y cerbydau
3.3 Arwyddion ar ddrysau cerbydau ac arwyddion eraill
3.4 Platiau trwydded cerbyd
3.5 Mesuryddion tacsi
3.6 Hysbysebu
3.7 Cerbydau newydd
3.8 Amodau
3.9 Tabl ffioedd cerbydau hacni
**4 Limwsinau a cherbydau eraill**
4.1 Cerbydau contract
4.2 Limwsinau
4.3 Amodau
**5 Gweithredwyr**
5.1 Trwydded gweithredwr
5.2 Amodau
**6 Cwynion a gorfodi**
6.1 Archwiliadau
6.2 Cwynion yn erbyn swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu
6.3 Cwynion yn erbyn gyrwyr / gweithredwyr
**7 Yr egwyddorion a ddilynir wrth ystyried ceisiadau ac adolygu trwyddedau**
7.1 Diogelu'r cyhoedd
7.2 Cyffredinol
7.3 Egwyddorion Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974
7.4 Hawl i apelio
7.5 Gwrandawiadau
7.6 Gofynion cais am drwydded yrru ddeuol
**7 Atodiadau**
7.1 Atodiad A - Amodau Trwydded Yrru Ddeuol
7.2 Atodiad B - Amodau Trwydded Cerbyd Hacni
7.3 Atodiad C - Amodau Trwydded Cerbyd Hurio Preifat
7.4 Atodiad D - Amodau Trwydded Gweithredwr Cerbyd Hurio Preifat
7.5 Atodiad E - Meini Prawf Ffitrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr *(Mabwysiedig ar y 1af Gorffennaf 2014)*

**7.6** Atodiad F - Amodau Hygyrchedd ar gyfer Cerbydau Dynodedig *(Mabwysiedig ar y 23ain Mehefin 2015)*

## 1. Cyflwyniad

Lluniwyd y ddogfen hon yn unol â'r pwerau a roddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, fel y'i diwygiwyd, sy'n rhoi dyletswydd ar Gyngor Sir Ceredigion, fel yr Awdurdod Trwyddedu, i gyflawni'i swyddogaethau trwyddedu o ran cerbydau hacni, cerbydau hurio preifat a'r rheini sy'n eu gyrru.

Yn y polisi hwn, defnyddir y byrfoddau a ganlyn:

CSC - Cyngor Sir Ceredigion

Y Polisi - Polisi Cyffredinol Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat Cyngor Sir Ceredigion

AT - Awdurdod Trwyddedu - Cyngor Sir Ceredigion

Deddf 1976 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976

Deddf 1847 - Deddf Cymalau Heddluoedd Tref 1847

DBS - Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) gynt)

Trwydded Yrru - Trwydded Yrru Ddeuol

Bathodyn Gyrrwr - Bathodyn Trwydded Yrru Ddeuol

DVLA - Yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Deddf 2010 - Deddf Cydraddoldeb 2010

CH - Cerbydau Hacni

CHP - Cerbydau Hurio Preifat

### 1.1 Nodau'r Awdurdod Trwyddedu

Dyma bum nod strategol Cyngor Sir Ceredigion:

- Mae'r Cyngor yn sefydliad addas i'r diben sy'n cyflenwi gwasanaethau sy'n gwella er mwyn bodloni anghenion ein dinasyddion;
- Mae'r amodau a'r cyfleoedd yng Ngheredigion yn cynnig modd i'r economi a busnesau lleol ddatblygu a ffynnu;
- Bydd Aberystwyth yn cael ei ddatblygu i fod yn ganolfan ranbarthol a chenedlaethol gydnabyddedig;
- Mae'r Cyngor yn cael y canlyniadau dysgu gorau ac yn darparu addysg a hyfforddiant rhagorol wedi'u teilwra i fodloni anghenion y rhai sy'n chwilio am gyfleoedd gyrfa yn y sir;
- Bydd y Cyngor yn darparu gwasanaethau sy'n cyfrannu at amgylchedd a bywydau iachach ac yn diogelu'r rheini sy'n agored i niwed yn y Sir.

I gyflawni'r amcanion corfforaethol uchod, nod yr Awdurdod Trwyddedu yw diogelu'r cyhoedd gan sicrhau ar yr un pryd bod modd i'n trigolion gael mynediad digonol at wasanaethau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n awyddus i gefnogi'r fasnach cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat lleol i gynnal yr economi leol ac i:

- Sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus ddiogel a dibynadwy ar gael i drigolion Ceredigion.
- Sicrhau bod y cyhoedd y mae'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn effeithio arnynt yn ddiogel.

- Sicrhau bod y rheini sy'n defnyddio gwasanaethau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn ddiogel ac yn gyfforddus.
- Hybu camau i ddarparu gwasanaethau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat hygyrch o safon.

**1.2 Ynghylch y polisi hwn**

i) Nod y polisi hwn yw:

- Amlinellu'r modd y mae'r Awdurdod Trwyddedu'n mynd ati i reoleiddio, gorfodi a chosbi cerbydau, gyrwyr a gweithredwyr,
- Diffinio'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â darparu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, a rhoi arweiniad yn ei chylch,
- Amlinellu'r amodau trwyddedu sy'n berthnasol i yrwyr, cerbydau a gweithredwyr.

ii) Pan fydd yn defnyddio'i ddisgresiwn wrth gyflawni'i swyddogaethau statudol, bydd yr AT yn rhoi sylw i'r ddogfen bolisi hon a'r nodau a'r amcanion a nodir uchod. Bydd yr AT hefyd yn ystyried y dogfennau a ganlyn:

- Canllawiau Arferion Gorau
- Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (fel y'i diwygiwyd)
- Cod Rheoleiddwyr 2014

iii) Pan fydd yn cyflawni'i swyddogaeth drwyddedu, bydd yr AT yn rhoi sylw i:

- Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (fel y'i diwygiwyd)
- Deddf Cymalau Heddluoedd Tref 1847 ac 1889
- Deddf Trafnidiaeth 1985, 1980 a 2000
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf Cydraddoldeb 2010 (fel y'i diwygiwyd)
- Deddf Traffig Ffyrdd 1991 a 1988
- Deddf Iechyd 2006
- Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936
- Deddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988
- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 (fel y'i diwygiwyd)
- Deddf Diogelwch ar y Ffyrdd 2006

iv) Er bod y polisi hwn yn bodoli, bydd pob cais a phob cam gorfodi'n cael ei ystyried yn ôl ei rinwedd ei hun. Os bydd angen i'r AT wyro'n sylweddol oddi wrth y polisi, bydd yn rhoi rhesymau clir a phendant dros wneud hynny.

v) Lluniwyd y polisi hwn gan ymgynghori'n llwyr â'r holl yrwyr a gweithredwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr Is-bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir Ceredigion. Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n ffurfiol yn ôl y gofyn; fodd bynnag, gall fod angen newid y polisi a'i atodiadau yn y cyfamser i gynnwys newidiadau i'r gyfraith, i gywiro gwallau neu os bydd ffactorau eraill yn peri i'r polisi newid. Mae'r AT yn cadw'r hawl i newid y polisi hwn drwy wneud mân newidiadau polisi i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gyfraith heb ymgynghori ymhellach.

vi) Bydd yr amodau a nodir yn y polisi hwn yn berthnasol i yrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, y cerbydau a'u gweithredwyr. Felly, gelwir unrhyw drwydded neu fathodyn a roddir i yrrwr yn Fathodyn a/neu'n Drwydded Yrru Ddeuol. Serch hynny, sylwch fod rhai o'r amodau'n berthnasol i yrwyr cerbydau hacni ac i yrwyr cerbydau hurio preifat yn benodol.

vii) Gellir gofyn i'r AT am ganllawiau sy'n nodi'r broses a ddefnyddir ar gyfer pob cais.

viii) Mae'r dogfennau y cyfeirir atynt yn y polisi hwn fel atodiadau'n rhan o'r polisi. Dylid eu darllen ochr yn ochr â'r polisi hwn.

**1.3 Pwerau dirprwyedig / Cynllun dirprwyo**

i) Bydd swyddogion awdurdodi yn cyfeirio at y polisi hwn, gan ddefnyddio'u disgresiwn i benderfynu a ddylid rhoi awdurdodiadau/trwyddedau. Mewn unrhyw achos arall, gellir cyfeirio ceisiadau am drwyddedau at yr Is-bwyllgor Trwyddedu (neu gorff perthnasol arall sy'n gwneud penderfyniadau).

**2. Gyrwyr**

**2.1 Trwyddedau gyrru deuol**

i) Rhaid i unigolyn fod yn berson addas a phriodol i gael trwydded yrru gan yr Awdurdod hwn.
ii) Nid yw'r AT yn rhoi trwyddedau gyrru ar wahân ar gyfer cerbydau hurio preifat a cherbydau hacni. Yn hytrach, mae'r AT yn rhoi trwydded yrru ddeuol sy'n rhoi hyblygrwydd i ddeiliad y drwydded yrru'r naill fath o gerbyd a'r llall.
iii) Ni chaiff trwydded ei roi i unigolyn sydd o dan 18 oed. Ni ellir ychwaith roi trwydded i unrhyw un dros 18 oed os nad oes ganddo drwydded yrru lawn y DU gan y DVLA am o leiaf 12 mis cyn iddo wneud cais. Mae hyn yn cynnwys ymgeiswyr sydd â thrwydded yrru (trwyddedau gyrru) gyrwyr o fewn gwledydd heblaw'r Deyrnas Unedig.
iv) Bydd y drwydded yrru'n parhau i fod mewn grym am gyfnod o dair [3] blynedd oni bai fod yr AT yn pennu cyfnod byrrach, yn atal trwydded dros dro neu'n ei dirymu.
v) O ran pa mor aml y mae angen cyflwyno tystysgrif ffitrwydd meddygol i'r AT, mae'r gwahanol amodau'n unol ag archwiliad meddygol grŵp 2 y DVLA.
vi) Diben y rheolau gwisg yw ceisio sicrhau bod gyrwyr yn gwisgo gwisg o safon sy'n rhoi delwedd gadarnhaol o Sir Ceredigion ac sy'n gwella delwedd broffesiynol y gyrwyr a drwyddedir gan yr AT hwn. Felly disgwylir bod gyrwyr wedi gwisgo mewn ffordd lân a thrwsiadus.
vii) Mae'r AT wedi cyflwyno rhaglen hyfforddi ar gyfer gyrwyr cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn (WAV). Estynnir gwahoddiad i'r gyrwyr hynny fynychu cwrs i sicrhau bod gwasanaeth o safon yn cael ei ddarparu i bob teithiwr ac i sicrhau bod y gyrwyr yn cael eu haddysgu ac yn dod i wybod am yr anawsterau y mae defnyddwyr cadeiriau olwyn a theithwyr â namau eraill yn eu hwynebu. Bydd y cwrs yn cynnig hyfforddiant ynghylch y ffyrdd y gall gyrwyr helpu teithwyr i fynd i'r cerbyd ac ohono a sicrhau eu bod yn ddiogel yn ystod y daith. Bydd unrhyw yrrwr sy'n cwblhau'r cwrs yn foddhaol yn cael tystysgrif a bydd eicon yn cael ei roi ar fathodyn y gyrrwr i ddangos ei fod wedi cwblhau cwrs cymhwysedd er mwyn cludo defnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae'r AT yn annog pob gyrrwr i fynychu'r cwrs ac felly nid yw'r cwrw wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n gyrru cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Gellir gofyn i'r AT am fwy o wybodaeth ynghylch yr hyfforddiant cymhwysedd.
viii) Mae'r holl feini prawf y mae'n rhaid i ymgeisydd eu bodloni er mwyn cael trwydded yrru ddeuol i'w gweld yn Atodiad A - Amodau Trwydded Yrru Ddeuol ac Atodiad E - Meini Prawf Ffitrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr.

**2.2 Amodau**

i) Ni chaniateir i'r AT bennu amodau ar drwydded yrru cerbyd hacni. Fodd bynnag, caiff bennu amodau ar drwydded yrru cerbyd hurio preifat os yw'n credu bod hynny'n rhesymol ac yn angenrheidiol. Gan mai'r AT sy'n cyhoeddi trwyddedau gyrru deuol, mae'r holl yrwyr a drwyddedir gan yr Awdurdod hwn wedi'u rhwymo gan yr amodau a osodir yma.
ii) Tybir bod yr amodau a nodir yn Atodiad A - Amodau Trwydded Yrru Ddeuol yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn briodol ar gyfer pob gyrrwr a drwyddedir gan yr Awdurdod hwn.

**2.3 Rhoi ac adnewyddu trwyddedau**

i) Er nad oes unrhyw ddyletswydd ar yr Awdurdod Trwyddedu i wneud hynny, gall atgoffa deiliaid trwydded fod angen iddynt adnewyddu'u trwyddedau, a hynny tua mis ymlaen llaw.

ii) Caiff pob cais ei drin yn ôl ei rinweddau ei hun a bydd mewn grym am gyfnod o dair [3] blynedd ar y mwyaf. Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod cais i adnewyddu trwydded yn cael ei gyflwyno mewn da bryd cyn y dyddiad y daw'r drwydded i ben oherwydd nid oes cyfnod awtomatig o ras ar gael.

iii) Gall cais i adnewyddu trwydded sy'n dod i law ar ôl i'r drwydded ddod i ben gael ei drin fel cais newydd. Felly, rhaid i'r ymgeiswyr gofio cyflwyno'u ceisiadau i adnewyddu'u trwyddedau mewn da bryd rhag ofn y bydd unrhyw oedi neu unrhyw eitemau y bydd angen eu diwygio neu eu cywiro cyn prosesu'r ceisiadau. Mae'r AT o'r farn bod y gyrwyr yn cyflwyno'u ceisiadau i adnewyddu'u trwyddedau a/neu'r dogfennau gofynnol 30 diwrnod ymlaen llaw. Fodd bynnag, nid yw'r AT yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw oedi a achosir gan ffactorau allanol nac unrhyw amgylchiadau tu hwnt i'w reolaeth.

iv) Rhaid i'r ymgeiswyr drefnu apwyntiad priodol i brosesu'u ceisiadau. Gellir trefnu apwyntiad drwy ffonio'r Adain Drwyddedu ar 01545 572179.

v) Rhaid i'r ymgeiswyr gyflwyno datgeliad DBS manylach i'r AT a wnaed o fewn chwe wythnos at ddyddiad y cais a rhaid cyflwyno datgeliad DBS newydd bob tair [3] blynedd ar ôl hynny.

vi) Dim ond tystysgrifau DBS manylach y gwnaed cais amdanynt drwy Adain Drwyddedu Cyngor Sir Ceredigion y bydd yr AT yn eu derbyn.

vii) Rhaid i'r ymgeiswyr ddarparu tystysgrif feddygol ar adeg y cais a rhaid iddynt gyflwyno tystysgrif feddygol bob pum [5] mlynedd ar ôl hynny, oni bai fod y gyrrwr wedi cyrraedd 65 oed pan fydd rhaid i yrwyr fath gael archwiliad a thystysgrif feddygol ynghylch ffitrwydd yr ymgeisydd bob blwyddyn. Mae pa mor aml y mae'r AT hwn yn gofyn am archwiliadau meddygol yn unol â'r hyn a nodir yng nghanllawiau meddygol D4 grŵp 2 y DVLA a gall newid heb unrhyw rybudd ymlaen llaw.

viii) Os yw'r ymgeisydd wedi byw dramor am unrhyw gyfnod neu os yw'n dod o un o aelod-wladwriaethau'r UE neu o dramor, bydd angen tystysgrif ymddygiad da a gadarnhawyd gan y Llysgenhadaeth berthnasol cyn bod modd cyflwyno cais i'r Awdurdod hwn. Rhaid i'r gwasanaeth cyfieithu consylaidd neu wasanaeth cyfieithu cymeradwy gyfieithu'r holl waith papur. Mae gwybodaeth am dystysgrifau ymddygiad da neu ddogfennau o'r fath o wahanol wledydd ar gael o'r cyfeiriad isod:

Passport and Documentary Service Group
Consular Directorate
Foreign and Commonwealth Office
Room G38
Old Admiralty Building
London
SW1A 2PA
**www.fco.gov.uk**

ix) Gellir defnyddio llinell gymorth y Swyddfa Gartref i gyflogwyr (0845 010 6677) i gael gwybodaeth gyffredinol am ddogfennau mewnfudo. Gall cyflogwyr a'r AT hefyd gael gwybodaeth am statws mewnfudo unigolion, gan gynnwys cael gwybod a oes gan ymgeisydd hawl i weithio yn y DU a manylion unrhyw gyfyngiadau gwaith: **www.ukba.homeoffice.gov.uk**

UK Border Agency, North West Region
c/o Units 1-2 Dallas Court
South Langworthy Road
Salford
M50 2GF

## 2.4 Bathodyn gyrrwr

i) Bydd yr AT yn darparu'r drwydded yrru a cherdyn adnabod ffotograffig a elwir yn Fathodyn Gyrru Deuol, a bydd y gost am hynny wedi'i chynnwys yn y ffi a godir i gael trwydded. Bydd y bathodyn a'r drwydded yn parhau i fod yn eiddo i'r AT a rhaid eu dychwelyd i'r AT pan fydd y drwydded yn dod i ben, yn cael ei dirymu neu'n cael ei hatal dros dro.
ii) Os bydd y bathodyn yn cael ei ddifrodi, ei golli neu'i ddwyn, rhaid rhoi gwybod i'r AT ar unwaith a rhaid i'r gyrrwr dalu i gael bathodyn newydd yn ei le.

### 2.6 Rhybuddiadau, rhybuddion, collfarnau ac ardystiadau

i) Mae gan yr Awdurdod Trwyddedu Bolisi Meini Prawf Ffitrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr. Caiff y meini prawf hyn eu gorfodi drwy gydol cyfnod y drwydded.
ii) Os bydd gyrwyr trwyddedig yn cyflawni troseddau, mae'n bwysig bod gweithdrefn yn cael ei rhoi ar waith i ystyried effaith y troseddau ar y drwydded, a hynny er mwyn diogelu'r cyhoedd a sicrhau cysondeb a thryloywder. Rhaid i yrwyr a drwyddedir gan yr AT hwn adrodd am unrhyw gollfarn, rhybuddiad, rhybudd neu gerydd trwy gwblhau a chyflwyno'r ffurflen a bennir i Wasanaeth Trwyddedu, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA o fewn un deg pedwar [14] diwrnod. Yn achos dedfryd o garchar, dylid rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
iii) Mae un rhan o'r Polisi Meini Prawf Ffitrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr yn amlinellu'r egwyddorion a'r cosbau a fydd yn berthnasol i bob ymgeisydd / gyrrwr. Fodd bynnag, bydd pob cais yn cael ei drin yn ôl ei rinwedd ei hun.
iv) Mae'r Polisi Meini Prawf Ffitrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr ar gael yn Atodiad E i'r polisi hwn.

### 2.7 Ffioedd trwyddedu

i) Bydd yr AT yn adolygu'r holl ffioedd trwyddedu bob blwyddyn. Ar hyn o bryd mae'r holl ffioedd sy'n ymwneud â cherbydau hacni, cerbydau hurio preifat, gweithredwyr a gyrwyr trwydded yrru ddeuol yn seiliedig ar yr egwyddor o adennill costau. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi pob ffi drwyddedu, gan gynnwys y ffioedd gweinyddu, ar ei wefan.

## 3. Cerbydau

### 3.1 Trwyddedau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat

i) Bydd trwydded cerbyd yn parhau i fod mewn grym am gyfnod o flwyddyn oni bai fod yr AT yn pennu cyfnod byrrach, yn atal trwydded dros dro neu'n ei dirymu.
ii) Rhaid i gerbyd fod yn addas i'w ddefnyddio fel cerbyd trwyddedig o ran y math o gerbyd, ei faint a'i ddyluniad. Mae'r AT wedi'i awdurdodi i drwyddedu cerbyd a gynhyrchwyd neu a addaswyd i gludo hyd at 8 teithiwr (ac eithrio'r gyrrwr) ar yr amod ei fod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn Atodiadau B ac C i'r polisi hwn.
iii) Mae'r AT yn caniatáu i gerbyd trwyddedig gael ei drwyddedu gan Awdurdod arall. Fodd bynnag, pan fydd yn ystyried troseddau, torri amodau a/neu'n gorfodi deddfwriaeth, bydd yr amodau a bennir gan CSC yn cael blaenoriaeth.
iv) Yn unol ag adran 40 o Ddeddf 1847 (mewn perthynas â cherbydau hacni) ac Adran 48(1) o Ddeddf 1976 (mewn perthynas â cherbydau hurio preifat), rhaid mai'r sawl sy'n gwneud cais am drwydded cerbyd yw perchennog neu un o berchnogion y cerbyd. Rhaid i'r AT gael gwybod am holl berchnogion a chyn berchnogion y cerbyd adeg y cais, adnewyddu neu amrywio trwydded.
v) Fel rhan o'r broses o wneud cais am roi trwydded perchennog cerbyd hacni, bydd angen dangos tystiolaeth o berchnogaeth i'r AT ar ffurf bil gwerthu neu gytundeb hurbwrcas/prydlesu, ynghyd â'r ddogfen gofrestru V5. Nid yw'r ddogfen V5 yn brawf o berchnogaeth.
vi) Mae cerbydau hurio preifat yn cael eu trwyddedu i gyflawni gwaith a drefnir ymlaen llaw yn unig, y gellir ei gael drwy gysylltu â gweithredwr cerbydau hurio preifat. Mae cerbydau hacni'n cael eu trwyddedu i 'chwilio am gwsmeriaid' h.y. i godi teithwyr ar y stryd neu pan fyddant yn aros mewn safleoedd tacsis awdurdodedig. Gallant hefyd gyflawni gwaith a drefnir ymlaen llaw.

vii) Mae nifer o safleoedd tacsis ar gael yn y sir. Ceir manylion am eu lleoliadau gan y Gwasanaeth Trwyddedu ar gais.

viii) Rhaid bod pob cerbyd mewn cyflwr diogel ac addas, a rhaid ei fod wedi'i gymeradwyo i'w drwyddedu gan yr AT i weithredu fel cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat. Felly, bydd gofyn i bob perchennog cerbyd ddarparu tystysgrif pasio MOT gyfredol ar yr achlysuron a ganlyn:
   a) Ymgeiswyr newydd ac eithrio cerbydau sy'n llai na thair [3] oed.
   b) Ceisiadau i adnewyddu trwydded
   c) Cael cerbyd newydd yn lle'r cerbyd trwyddedig
   d) Pan fydd cerbyd yn cael unrhyw archwiliad
   e) Ar gais yr AT os yw hynny'n angenrheidiol

   Rhaid bod y prawf MOT wedi'i gyflawni o fewn 6 wythnos at y dyddiad a bennwyd ar gyfer archwilio'r cerbyd.

**3.2 Cyfyngu ar niferoedd y cerbydau**

i) Nid oes unrhyw bwerau ar gael sy'n caniatáu i'r Awdurdodau Trwyddedu gyfyngu ar nifer y cerbydau hurio preifat a'r cerbydau hacni y maent yn eu trwyddedu. Fodd bynnag, yn sgil arolwg annibynnol, caiff yr AT gyfyngu ar nifer y trwyddedau y mae'n eu rhoi i berchnogion cerbydau hacni ar yr amod nad oes galw sylweddol am wasanaethau cerbydau hacni nad yw'n cael ei ddiwallu.

**3.3 Arwyddion ar ddrysau cerbydau ac arwyddion eraill**

i) Darperir sticeri glas hanner cylch i'w rhoi ar ddrysau pob cerbyd hacni. Rhaid eu gosod ar ddrysau blaen y cerbyd a rhaid iddynt barhau i fod yn eu lle bob amser dros gyfnod y drwydded i ddangos er mwyn i'r cerbyd gael ei adnabod fel cerbyd sydd wedi'i drwyddedu gan yr AT hwn.

ii) Bydd yr AT yn darparu sticeri dim smygu a rhaid eu gosod tu mewn i ffenestri cefn y cerbyd i roi gwybod i deithwyr na chaniateir iddynt smygu yn y cerbyd.

iii) Rhaid gosod yr arwydd ar ganol y to. Rhaid iddo fod yn wyn, ond caniateir i gefn yr arwydd fod yn ambr neu'n goch. Rhaid i'r goleuadau LED / bylbiau tu mewn i'r arwydd to gydweddu â'r casyn allanol.

iv) Ni chaniateir rhoi arwydd ar do cerbyd hurio preifat.

**3.4 Platiau trwydded cerbyd**

i) Yn unol ag Adran 48(6)(a) o Ddeddf 1976 mewn perthynas â cherbydau hurio preifat ac Adran 47(1) mewn perthynas â cherbydau hacni, bydd plât trwydded cerbyd sy'n un a gymeradwyir ac a ddarperir gan yr AT hwn yn cael ei osod ar gefn y cerbyd trwyddedig bob amser yn ystod cyfnod y drwydded. Rhaid ei gynnal mewn cyflwr da a glân a rhaid bod modd ei weld yn glir bob amser.

ii) Rhaid cadw'r plât trwydded ar y cerbyd bob amser pan fydd wedi'i drwyddedu fel cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni.

iii) Rhaid gosod y plât mewnol a ddarperir gan yr AT yn wynebu tu mewn ar ochr chwith y ffenestr flaen a rhaid ei arddangos mewn ffordd nad yw'n amharu ar yr hyn y mae'r gyrrwr yn ei weld. Rhaid ei gynnal mewn cyflwr glân a darllenadwy.

iv) Rhaid rhoi gwybod i'r AT ar unwaith os bydd plât trwydded cerbyd yn cael ei golli neu'i ddifrodi, a hynny er mwyn cael plât newydd ar ôl talu'r ffi benodedig. Ni chaniateir defnyddio'r cerbyd i gludo teithwyr am dâl hyd nes i blât trwydded newydd gael ei roi.

v) Mae'r platiau trwydded cerbyd yn parhau i fod yn eiddo i'r AT ac ni chaniateir eu copïo na'u defnyddio mewn modd twyllodrus.

vi) Mae'r perchennog yn troseddu os nad yw'n dychwelyd y plât trwydded o fewn saith [7] diwrnod a gall wynebu dirwy nad yw'n fyw na lefel 3 ar y raddfa safonol a hefyd dirwy ddyddiol o swm nad yw'n fwy na deg punt [£10].

**3.5 Mesuryddion tacsi**

i) Os caiff cerbyd hacni ei ddefnyddio o dan gontract hurio preifat, rhaid defnyddio'r mesurydd ac ni chaniateir codi ffi sy'n uwch na'r ffi a ddangosir ar y mesurydd. Yn ogystal, dim ond o'r man yn yr ardal a reolir lle mae'r huriwr yn cychwyn ei daith y caniateir defnyddio'r mesurydd.
ii) Ni chaniateir i unrhyw unigolyn ymyrryd â'r sêl ar unrhyw fesurydd tacsi nac addasu unrhyw fesurydd tacsi gyda'r bwriad o gamarwain. Rhaid bod modd i unrhyw unigolyn sy'n cael ei gludo yn y cerbyd weld yr holl lythrennau a ffigurau ar y mesurydd bob amser.

### 3.6 Hysbysebu

i) Os bydd perchennog cerbyd hacni am osod hysbysebion ar y cerbyd neu ynddo, rhaid iddo/iddi gael caniatâd ysgrifenedig gan y Rheolwr Trwyddedu. Caiff unrhyw ganiatâd a phob cais ei gymeradwyo ar wahân, yn unigol ac yn unol â'r egwyddorion a bennir yn Atodiadau B ac C i'r polisi hwn.

### 3.7 Cerbydau newydd

i) Nid oes unrhyw system statudol ar waith i drosglwyddo trwydded cerbyd pan fydd trwydded wedi'i rhoi. Serch hynny, mae'r AT yn sylweddoli y gall perchnogion fod am newid eu cerbydau yn ystod cyfnod y drwydded. I wneud hynny, rhaid i'r perchennog ildio'r drwydded (gan gynnwys y plât trwydded) ar gyfer y cerbyd gwreiddiol. Pan fydd y cais newydd a'r ffi briodol wedi dod i law, bydd yr AT yn rhoi trwydded newydd (gan gynnwys plât trwydded) ar gyfer y cerbyd newydd.
ii) Bydd y camau hyn hefyd yn cael eu cymryd mewn perthynas â cherbydau sydd wedi bod mewn damwain, a hynny pan fydd angen defnyddio cerbyd arall dros dro. Ni waeth am ba hyd y bydd y cerbyd arall yn cael ei ddefnyddio, rhaid dilyn y weithdrefn a amlinellir uchod ar gyfer y cerbyd arall ac ar gyfer y cerbyd gwreiddiol pan fydd hwnnw'n cael ei ddefnyddio eto.
iii) Os caiff cerbyd ei ddarparu dros dro gan gwmni prydlesu/hurio, bydd angen darparu cytundeb hurio sy'n nodi am ba hyd y bydd y cerbyd yn cael ei hurio. Bydd hyn yn sicrhau bod gan ddeiliad y drwydded fuddiant perchennog yn y cerbyd.
iv) Yn achos cerbydau sy'n cael eu hurio neu eu cyflenwi gan yswiriwr i'w defnyddio dros dro, ni fydd cyfnod y drwydded yn fwy na'r cytundeb hurio/prydlesu.

### 3.8 Amodau

i) Mae gan yr AT bŵer i bennu'r amodau hynny sy'n rhesymol angenrheidiol yn ei farn ef mewn perthynas â rhoi trwyddedau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Gan fod y cerbydau hyn yn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd, mae'n briodol pennu meini prawf drwy gyfrwng amodau ynghylch cyflwr allanol a mewnol y cerbyd, ar yr amod nad yw'r rhain yn afresymol o feichus. Nodir yr amodau hyn yn Atodiadau B ac C.

### 3.9 Tabl ffioedd cerbydau hacni

i) Rhaid i'r AT bennu'r cyfraddau neu'r ffioedd ar gyfer amser a phellter a phob ffi arall sy'n gysylltiedig â hurio cerbyd hacni.
ii) Rhaid arddangos y tabl ffioedd awdurdodedig cyfredol mewn man amlwg yn y cerbyd i sicrhau bod modd i deithwyr ei weld yn glir bob amser.
iii) Mae'n anghyfreithlon i gael mwy na'r ffioedd a bennir ar gyfer y daith.

iv) Pan fydd cais am gynnydd arfaethedig mewn ffioedd ar gyfer cerbydau hacni yn cael eu derbyn, bydd y cais yn cael ei gyflwyno i'r Gwasanaeth Trwyddedu a fydd yn ystyried y cais trwy ymgynghori â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu. Rhaid i'r ceisiadau am gynnydd mewn ffioedd fod yn deg ac yn gymesur, rhaid iddynt ddarparu rhesymau clir dros y cais a rhaid iddynt ddatgan amserlen resymol i'w rhoi ar waith. Os bydd yr AT yn cymeradwyo'r cais, bydd yn cyhoeddi hysbysiad ar un achlysur sy'n nodi'r tabl ffioedd arfaethedig ynghyd â'r dyddiad y bydd y ffioedd yn dod i rym mewn un papur newydd lleol yng Ngheredigion gan roi o leiaf [14] diwrnod o gyfnod ymgynghori. Bydd copi o'r hysbysiad hwn ar gael i'w weld yn swyddfeydd CSC yn Aberaeron ac yn Aberystwyth. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, bydd yr AT yn ystyried y cais ac unrhyw wrthwynebiadau sydd wedi dod i law. Os oes gwrthwynebiadau perthnasol a dilys wedi dod i law, bydd y cynnydd yn y ffioedd yn cael ei ohirio a bydd yn dychwelyd i'r AT er mwyn iddo benderfynu arno. Os na fydd unrhyw wrthwynebiad wedi dod i law erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori, bydd yr AT yn gweithredu'r ffioedd hynny ac yn dosbarthu cardiau ffioedd newydd i berchnogion cerbydau hacni cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

## 4. Limwsinau, cerbydau contract a cherbydau eraill

### 4.1 Cerbydau contract

i) Rhaid i gerbydau o dan gontract i'r Awdurdod Lleol gael eu trwyddedu gan yr AT hwn fel cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat. Mae rhai esemptiadau'n berthnasol i gerbydau ambiwlans penodedig a gwasanaeth cerbyd a gyrrwr sy'n cael ei ddarparu'n wirfoddol neu ar sail ddielw.
ii) Rhaid i'r gyrrwr, y cerbyd hacni a'r cerbyd hurio preifat gael eu trwyddedu gan yr Awdurdod hwn.
iii) Rhaid i'r gyrrwr gael ei drwyddedu gan yr AT hwn er mwyn gyrru o dan gontract i'r Awdurdod Lleol.
iv) Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n rheoleiddio ac yn gorfodi'r amodau ar gyfer gyrwyr, cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat ac mae'r gwasanaeth perthnasol sydd wedi llunio'r contract yn rheoleiddio'r contract, serch adran 3.1(iii) o'r polisi hwn.
v) Mae cerbydau a ddefnyddir yn unig i gludo teithwyr i angladdau a/neu wasanaethau priodas wedi'u heithrio rhag cael eu trwyddedu fel cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat.

### 4.2 Limwsinau hir

i) Gall yr AT drwyddedu limwsinau a cherbydau eraill o'r fath a bydd amodau cymesur a rhesymol yn cael eu pennu ar gyfer y trwyddedau, yn ôl y gofyn, i sicrhau bod cerbydau o'r fath yn ddiogel i gludo aelodau o'r cyhoedd ynddynt.

ii) Ceir salŵn hir yw limwsinau. Maent yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer gwaith hurio preifat prif ffrwd. Tybir bod y cerbydau hyn yn gerbydau hurio preifat ar sail y gwaith y maent yn ei gyflawni. I'r perwyl hwnnw, gall yr AT hwn drwyddedu'r cerbydau hyn yn unol â'r meini prawf a nodir yn y polisi hwn ac yn Atodiad C.

iii) Gyda phob cais rhaid darparu dogfennau mewnforio'r cerbyd a rhaid cadarnhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion DVSA trwy gyfrwng pasio archwiliad Cymeradwyaeth Wirfoddol i Gerbydau Unigol (VIVA). Rhaid cyflwyno'r dogfennau DVSA perthnasol sy'n profi'r gymeradwyaeth wrth gyflwyno'r cerbyd am drwydded am y tro cyntaf a phob tro y gwneir cais i adnewyddu'r drwydded wedi hynny. Nid oes angen Cymeradwyaeth i Gerbydau Unigol ar gyfer cerbydau sy'n cydymffurfio ag EWVTA h.y. heb eu haddasu a/neu eu newid ers eu cynhyrchu.

iv) Bydd yr holl amodau perthnasol eraill ar gyfer gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr a osodir gan yr Awdurdod hwn yn berthnasol i'r drwydded hon.

## 5. Gweithredwyr cerbydau hurio preifat

### 5.1 Trwydded gweithredwr

i) Mae angen trwydded gweithredwr er mwyn gwahodd neu dderbyn archebion ar gyfer cerbyd hurio preifat. Caiff yr AT bennu unrhyw amodau sy'n rhesymol angenrheidiol yn ei farn ef pan fydd yn rhoi trwydded gweithredwr. Bydd trwydded gweithredwr yn parhau i fod mewn grym am gyfnod o bum mlynedd ar y mwyaf, oni bai fod yr AT yn pennu cyfnod byrrach, yn dirymu'r drwydded neu'n ei hatal dros dro. Ni chaniateir trosglwyddo'r drwydded.

ii) Rhaid gwneud cais am drwydded gweithredwr gan ddefnyddio'r ffurflen benodedig a rhaid darparu'r ffi briodol a'r dogfennau ategol. Yna, bydd yr AT yn penderfynu a yw'r ymgeisydd yn berson addas a phriodol i gael trwydded gweithredwr.

iii) Mae'r gweithredwr yn gyfrifol am gadw cofnodion manylion pob archeb, boed wedi'i wahodd neu ei dderbyn, a sicrhau bod y cofnodion hynny ar gael i'r cyhoedd eu gweld os gofynnir amdanynt.

### 5.2 Amodau

i) Mae gan yr AT bŵer i bennu'r amodau hynny sy'n rhesymol angenrheidiol yn ei farn ef ar drwydded gweithredwr. Nodir yr amodau safonol sy'n berthnasol i bob gweithredwr a drwyddedir gan yr Awdurdod hwn yn Atodiad D.

## 6. Cwynion a gorfodi

### 6.1 Archwiliadau

i) Bydd gan unrhyw un o Swyddogion awdurdodedig CSC neu Heddlu Dyfed-Powys Police bŵer ar unrhyw adeg resymol i arolygu ac archwilio unrhyw gerbyd wedi'i drwyddedu gan yr awdurdod hwn neu unrhyw gerbyd sy'n cymryd arno ei fod felly, heb roi rhybudd ymlaen llaw.

ii) Bydd gan unrhyw un o Swyddogion awdurdodedig CSC neu Heddlu Dyfed-Powys Police yr hawl i graffu ar unrhyw yrrwr a drwyddedir gan yr Awdurdod hwn neu unrhyw yrrwr sy'n gweithredu neu'n cymryd arno ei fod felly, ar unrhyw adeg resymol heb roi rhybudd ymlaen llaw.

Bydd gan Swyddog awdurdodedig CSC neu Heddlu Dyfed-Powys Police hawl i archwilio safle unrhyw weithredwr, gan gynnwys is-safleoedd, heb roi rhybudd ymlaen llaw.

### 6.2 Cwynion yn erbyn swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu

i) Dylai unrhyw gŵyn yn erbyn unrhyw un o swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu fod yn ysgrifenedig a'i gyfeirio at y Swyddog Cwynion Corfforaethol, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Ceredigion, SA46 0PA. Bydd yn ymchwilio i'r mater yn unol â threfn gwyno CSC.

### 6.3 Cwynion yn erbyn gyrwyr/gweithredwyr

i) Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried cwynion sy'n dod i law gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch ymddygiad gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr ac yn ymchwilio iddynt.

ii) Yn gyffredinol, pan fydd cwyn yn dod i law, gall un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu:
   a) Cyfweld yr achwynydd a chymryd datganiadau gan dystion.
   b) Ymchwilio i'r mater drwy gyfweld y gyrrwr/gweithredwr/perchennog. Gellir gwneud hyn dan rybudd os yw'n ymddangos bod trosedd wedi'i chyflawni.
   c) Ystyried ymddygiad y gyrrwr/gweithredwr/perchennog a materion diogelwch y cyhoedd.
   d) Ystyried hanes blaenorol y gyrrwr/gweithredwr/perchennog.
   e) Penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau, rhoi rhybudd ysgrifenedig, atal y drwydded dros dro, dirymu'r drwydded, rhoi rhybuddiad syml neu erlyn.
   f) Mewn achosion lle mae'r cyhoedd mewn perygl neu lle mae diogelwch y cyhoedd wedi'i beryglu, bydd y gyrrwr/gweithredwr yn cael ei gyfeirio at yr Is-bwyllgor Trwyddedu a gall y drwydded gael ei hatal dros dro neu ei dirymu ar unwaith.
   g) Mewn achosion lle profir bod rhywun wedi torri'r amodau dro ar ôl tro ac yn gyson, gall yr AT ystyried ei erlyn, dirymu'r drwydded neu'i hatal dros dro, cyflawni adolygiad neu roi rhybudd ysgrifenedig.
   h) Mae'n drosedd i rwystro swyddog rhag cyflawni ei ddyletswyddau.

   Nid yw'r rhestr hon o gamau gweithredu yn gyflawn.

### 7. Yr egwyddorion a ddilynir wrth ystyried ceisiadau ac adolygu trwyddedau

i) Penderfynir ynghylch ceisiadau gan ymgeiswyr newydd, ceisiadau i adnewyddu trwyddedau ac adolygiadau o drwyddedau yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Polisi Cyffredinol hwn. Bydd ceisiadau gan ymgeiswyr newydd a cheisiadau i adnewyddu trwyddedau'n cael eu caniatáu (gydag amodau o bosibl) neu'u gwrthod. Ar ôl adolygu trwydded, gellir pennu amodau ychwanegol ar y drwydded, rhoi rhybudd, peidio â chymryd unrhyw gamau pellach, neu atal y drwydded dros dro / ei dirymu.

### 7.1 Diogelu'r cyhoedd

i) Diben y drefn o drwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yw gwarchod pobl sy'n teithio ynddynt a sicrhau eu bod yn ddiogel.
ii) Mae'r Meini Prawf Ffitrwydd ar gyfer gyrwyr i'w gweld yn Atodiad E.

### 7.2 Cyffredinol

i) Sylwer nad yw'r egwyddorion hyn yn gyflawn.
ii) Mae'r AT yn sylweddoli bod rhai o'r troseddau a restrir yn y polisi yn droseddau deddfwriaethol, yn torri amodau a/neu'n torri is-ddeddfau a bod gweithdrefnau a chosbau ar wahân ar gael ar eu cyfer.
iii) Os bydd gan yr AT bryderon difrifol ynghylch diogelwch y cyhoedd, gall fod angen iddo fynd ati ar unwaith i atal trwydded yrru dros dro neu i ddirymu trwydded o'r fath.

### 7.3 Egwyddorion Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974

i) Pan fydd yn ystyried cais, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried pob rhybudd, rhybuddiad, collfarn, cerydd ac unrhyw wybodaeth ychwanegol a nodir ar y datgeliad gan y DBS neu'r wybodaeth a ddarparwyd gan Brif Swyddog yr Heddlu, gan gynnwys collfarnau sydd wedi darfod, a hynny pan fydd yn penderfynu a yw rhywun yn unigolyn addas a phriodol i gael trwydded.

### 7.4 Hawl i apelio

i) Mae Deddf 1976 yn darparu'r hawliau apelio a ganlyn:
a) Adran 47 (3) - Apelio yn erbyn amodau a bennwyd ar drwydded perchennog cerbyd hacni:
b) Adran 48 (7) - Apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi trwydded cerbyd hurio preifat neu amodau a bennwyd ar drwydded o'r fath:
c) Adran 52 (1) & (2) - Apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi trwydded gyrru cerbyd hurio preifat neu amodau a bennwyd ar drwydded o'r fath:
d) Adran 55 (4) - Apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi trwydded gweithredu cerbyd hurio preifat neu amodau a bennwyd ar drwydded o'r fath:
e) Adran 59 (2) - Apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi trwydded yrru cerbyd hacni:
f) Adran 60 (3) - Apelio yn erbyn penderfyniad i atal trwydded cerbyd dros dro, ei dirymu neu wrthod ei hadnewyddu:
g) Adran 61 (3) - Apelio yn erbyn penderfyniad i atal trwydded yrru cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat dros dro, ei dirymu neu wrthod ei hadnewyddu:
h) Adran 62 (3) - Apelio yn erbyn penderfyniad i atal trwydded gweithredwr cerbyd hurio preifat dros dro, ei dirymu neu wrthod ei hadnewyddu:

ii) O ran y trwyddedau a ganlyn:
- Trwyddedau Gyrru Deuol
- Trwyddedau Gweithredwyr Cerbydau Hurio Preifat,
- Trwyddedau Cerbydau Hurio Preifat,
- Trwyddedau Perchnogion Cerbydau Hacni

mae hawl statudol i apelio i'r Llys Ynadon. Gellir apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi neu adnewyddu trwydded ac yn erbyn penderfyniad i atal trwydded dros dro neu'i dirymu. Mae hawl i apelio hefyd yn erbyn unrhyw amodau a bennwyd ar unrhyw drwydded o'r fath gan yr awdurdod trwyddedu.

iii) Er mwyn apelio i'r Llys Ynadon, rhaid i ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau gyflwyno apêl cyn pen 21 diwrnod ar ôl y dyddiad y cafodd yr ymgeisydd wybod am benderfyniad yr AT.

iv) Mae adran 52 o Ddeddf Diogelwch ar y Ffyrdd 2006 yn rhoi pŵer i'r AT fynd ati ar unwaith i atal trwydded yrru dros dro neu'i dirymu os yw'n credu bod angen iddo wneud hynny i ddiogelu'r cyhoedd. Caiff y gyrrwr apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Serch hynny, gan fod y penderfyniad hwn yn un uniongyrchol, ni chaiff y gyrrwr yrru yn ystod cyfnod yr apêl a rhaid dychwelyd bathodyn y gyrrwr i'r AT hyd nes bod yr Ynadon wedi gwneud penderfyniad.

### 7.5 Gwrandawiadau

i) Gall gwrandawiadau'r Is-bwyllgor Trwyddedu gael eu cynnal yn gyhoeddus, ac eithrio mewn achosion lle mae'r Is-bwyllgor yn tybio bod y buddiant preifat yn y gwrandawiad (neu ran ohono) yn drech na budd y cyhoedd, a hynny gan roi sylw i Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.

ii) Ar unrhyw adeg yn ystod y gwrandawiad, gall yr Is-bwyllgor ailystyried a yw budd y cyhoedd yn peri iddi fod yn ofynnol i ran o'r gwrandawiad ddigwydd yn absenoldeb y cyhoedd neu a ddylid atal dogfennau sy'n cael eu trafod gan yr Is-bwyllgor rhag cael eu cyhoeddi, a gall wneud dyfarniad yn unol â hynny.

iii) Mae'r weithdrefn i'w dilyn mewn gwrandawiad ar gael gan yr AT ar gais.

### 7.6 Gofynion cais am drwydded yrru ddeuol

i) Rhaid cyflwyno'r holl geisiadau a'r dogfennau perthnasol i'r AT yn eu cyfanrwydd i sicrhau nad yw'n bosibl i'r dogfennau fynd ar goll ac, i'r perwyl hwnnw, ni chaiff ceisiadau sy'n dod i law fesul dipyn eu prosesu.

**RHAID CYFLWYNO'R DOGFENNAU A GANLYN:**

#### 7.6.1 Datgeliad Manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

i) Mae'r gwiriad hwn yn cynorthwyo'r AT i benderfynu a yw'r ymgeisydd yn unigolyn addas a phriodol i gael trwydded. Rhaid i geisiadau am ddatgeliadau gan y DBS gael eu cwblhau trwy Gyngor Sir Ceredigion. Rhaid i ddatgeliadau fod wedi'i lunio llai nag 6 wythnos yn gynt adeg cyflwyno'r cais. O ran canlyniadau'r datgeliad neu'r wybodaeth a geir ynddo, mae Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn diwygio Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 o ran gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Mae'r diwygiad hwn yn caniatáu i'r AT ystyried yr holl gollfarnau (p'un a ydynt wedi darfod ai peidio), unrhyw wybodaeth berthnasol arall a ddatgelir yn ôl disgresiwn Prif Swyddog yr Heddlu, Rhybuddiadau Syml, Dirwyon Cosb Benodedig, Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol neu unrhyw fater arall i'w ystyried.

ii) O ran cyflogi gwladolion tramor, mae'r AT yn sylweddoli na fydd datgeliad gan y DBS ond yn darparu gwybodaeth o'r adeg y daeth yr ymgeisydd i fyw yn y DU. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd rhaid i'r ymgeisydd gael datganiad sy'n gyfwerth â datgeliad gan y DBS neu Dystysgrif Ymddygiad Da gan ei Lysgenhadaeth ei hun. Yr ymgeisydd fydd yn talu unrhyw gostau sy'n codi yn ystod y broses hon. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw bodloni'r AT ei fod yn unigolyn addas a phriodol; fodd bynnag, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn cymryd pob cam rhesymol a chymesur i sicrhau bod gyrrwr yn unigolyn addas a phriodol a bydd yn barnu pob achos yn ôl ei rinwedd ei hun. Os ceir datgeliad cyfwerth â datgeliad gan y DBS y mae angen ei gyfieithu i'r Gymraeg neu'r Saesneg, gall gwasanaeth cyfieithu proffesiynol gwblhau hyn a stampio dilysu'r cyfieithiad.

iii) Ni fydd llungopïau o ddogfennau'n dderbyniol, oni bai fod un o swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu wedi'u hardystio i gadarnhau eu bod yn gopïau dilys o ddogfennau gwreiddiol. Dim ond dogfennau gwreiddiol y gellir eu cyflwyno fel dogfennau ategol i wneud cais am ddatgeliad gan y DBS. Nid yw'r AT yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros unrhyw ddogfennau gwreiddiol sy'n cael eu dychwelyd drwy'r Post Brenhinol. Am y rheswm hwn, cynghorir yr ymgeiswyr i gyflwyno a/neu i gasglu'u dogfennau'u hunain, lle bynnag y bo modd.

iv) Ni fydd yr AT ond yn prosesu cais am ddatgeliad gan y DBS fel rhan o gais dilys a chyflawn ac ni fydd yn gwneud hynny cyn i gais gael ei gyflwyno.

### 7.6.2 Datgeliad o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998

i) Bydd yn ofynnol i bob gyrrwr lofnodi datganiad sy'n caniatáu i'r AT gyflwyno cais i'r Gwasanaeth Heddlu perthnasol am ddatgeliad adran 115 er mwyn cael gwybodaeth ynghylch hanes troseddol a/neu hanes gyrru unigolyn. Gellir ei ddefnyddio hefyd i gadarnhau bod gan yr ymgeisydd drwydded yrru lawn ers o leiaf ddeuddeg mis ac i atal unrhyw weithgarwch twyllodrus o ran cael gafael ar fwy nag un drwydded. Gall fod tâl am y gwasanaeth hwn a bydd rhaid i'r ymgeisydd ei dalu.

ii) Gall gwybodaeth neu gudd-wybodaeth a ddatgelir i'r AT gan Heddlu Dyfed-Powys Police neu Awdurdod arall fod yn rheswm dros roi ymgeisydd, gyrrwr, perchennog neu weithredwr gerbron yr Is-bwyllgor Trwyddedu a chaiff ei datgelu yn ystod y gwrandawiad er mwyn i'r Is-bwyllgor fod â'r holl wybodaeth er mwyn gallu gwneud penderfyniad ynglŷn â ffitrwydd a phriodoldeb yr unigolyn.

### 7.6.3 Tystysgrif Feddygol

i) Mae angen cyflwyno Tystysgrif Feddygol adeg gwneud cais ac yn achlysurol ar ôl hynny. Rhaid cyflawni archwiliad meddygol at safon Grŵp 2 y DVLA a rhaid bod modd i'r sawl sy'n cyflawni'r archwiliad meddygol weld hanes meddygol diweddaraf yr ymgeisydd/y gyrrwr.

ii) Dylid cyfeirio at lyfryn gwybodaeth D4 y DVLA ynghylch Adroddiad Archwiliad Meddygol (sydd ar gael yn www.dvla.gov.uk) i gael rhestr o'r cyflyrau meddygol a all atal ymgeisydd rhag cael cadarnhad ei fod yn feddygol ffit i yrru cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat.

iii) O ran gyrwyr sydd wedi cyrraedd 65 oed, rhaid iddynt ddarparu Tystysgrif Feddygol bob blwyddyn. Mewn achosion o'r fath, bydd Tystysgrif yn ddilys am gyfnod o 12 mis yn unig.

iv) Mae'n bosibl na fydd rhaid i'r ymgeiswyr hynny sydd eisoes wedi cyflawni archwiliad meddygol Grŵp 2 y DVLA a bodloni ei ofynion cyn iddynt wneud cais gael archwiliad meddygol arall. Bydd pob achos yn cael ei drin yn ôl ei rinwedd ei hun, ond bydd rhaid i'r Dystysgrif Feddygol gwmpasu cyfnod y drwydded. Os oes ganddo bryderon, mae'r AT yn cadw'r hawl i fynnu bod ymgeisydd yn cael tystysgrif gyfoes.

v) Bydd pob gyrrwr yn cael archwiliad meddygol Grŵp 2 a chanllawiau'r DVLA fydd yn pennu pa mor aml y byddant yn cael archwiliad, adeg gwneud cais ac wedi iddynt gael y drwydded gyntaf.

Rhaid i'r ymgeisydd dalu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chael tystysgrif feddygol berthnasol. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn y canllaw canlynol:
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/526635/assessing-fitness-to-drive-a-guide-for-medical-professionals.pdf

### 7.6.4 Trwydded yrru'r DVLA

i) Rhaid bod gan bob gyrrwr drwydded yrru lawn a roddwyd gan y DVLA, yng Ngogledd Iwerddon neu yn un o wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Rhaid bod gan yr ymgeisydd drwydded o'r fath am o leiaf 12 mis cyn dyddiad y cais.